FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
COFNODION CADARN

Ail gyfarfod ar bymtheg ar hugain y Fforwm a gynhaliwyd ym Melin y Nant, Coed-poeth, Wrecsam ar ddydd Gwener 14eg Mai 2010 am 2.00pm

12/10 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

SWYDDOG LLYWYDDU AC YSGRIFENNYDD
Carla McCusker

IS-GADEIRYDD
Sue Gittins (SG)

AELODAU
Peter Cade (PC)
John Evans (JE)
Martin Howorth (MH)
Gerald Moss (GM)
Janet Williams (JM)
Mary Roberts (MR)
Gwynfor Jones (GJ)
Shelagh Roberts (SR)

ERAILL
Sean Hanratty (SH) - CBSW
Sion Roberts (SR) - CBSW
Jean Rosenfeld (JR)

YMDDIHEURIADAU - AELODAU
Mabyn Pickering (MP), Natalie Edwards (NE), John Cooper-Poole (JCP), Tim Stratton (TS), Guy Springett (GS), Mike Crawshaw (MC).

YMDDIHEURIADAU - ERAILL

Alun Price, Richard Sumner

13/10 Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Nodwyd presenoldeb ac ymddiheuriadau fel yr uchod. Cadeiriodd SG y cyfarfod yn absenoldeb MP ac ymddiheurodd bod y daith wedi gorfod cael ei chanslo y tro yma.

Rhoddwyd croeso cynnes i Jean Rosenfeld, Cynrychiolydd Cenedlaethol y Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru a Chadeirydd LAF Sir y Fflint.

14/10 Materion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2010

Prosiect Gwella Cyfleoedd Marchogaeth

Cyfeiriodd GJ at eitem 07/10 yn y cofnodion blaenorol: 'Prosiect Gwella Cyfleoedd Marchogaeth'. Gofynnodd GJ i'w bryderon gael eu nodi, gan ddweud y dylai fod wedi bod mwy o ymgynghori ag WLAF ynghylch cynigion y prosiect. Amheuwyd diogelwch llwybrau, yn enwedig ar briffyrdd a ffyrdd cul gyda chloddiau uchel / troadau S. Ychwanegodd JW ei bod yn synnu bod prif ffyrdd yn cael eu defnyddio, gan ddweud y byddai ffyrdd distawach wedi bod yn well fel llwybrau marchogaeth mwy diogel. Teimlai GJ a JW y gellid bod wedi dynodi gwell llwybrau marchogaeth ac y codwyd gormod o arwyddion. Dywedodd JW ei bod wedi bod yn gofyn am gael disodli arwydd ar y B450 am ryw ddwy flynedd ac na waned y gwaith eto.

Ymatebodd MH i'r pryderon uchod trwy ddweud mai'r gymuned farchogaeth, oedd eisiau gwell mynediad at ffyrdd, oedd yn gyrru ac yn ysbrydoli'r prosiect. Dywedodd MH bod yr Adran Priffyrdd yn rhan o'r prosiect hefyd, yn cynghori ar ddiogelwch llwybrau. O ran arwyddion, eglurodd MH bod angen arwyddion ar y ffyrdd er mwyn cyfeirio marchogion a rhybuddio modurwyr.

Ychwanegodd SG bod AVOW a Gogledd Gororau Cymru'n ymwneud â'r prosiect hefyd a dywedodd eto mai'r gymuned farchogaeth a ddewisodd y llwybrau dan sylw. Sicrhaodd SG yr aelodau bod arian yn cael ei wario'n cynghori ar faterion diogelwch yn ogystal ag arwyddion.

Gât Mochyn Erbistog

Cyfeiriwyd at y gât mochyn yn Erbistog (cyfeirnod map 355430). Cytunwyd y bydd yr Adran Hawliau Tramwy'n archwilio'r mater hwn ymhellach.

Camfa ar yr A528

Dywedodd SR y penderfynwyd, ar ôl ymweld â'r safle ger pont Owrtyn (yn dod allan o Rosehill Park ar yr A528), bod y gamfa bresennol yn beryglus gan ei bod yn rhy agos at y ffordd. Ers hynny rhoddwyd gât mochyn yn lle'r gamfa.

14/10 Adroddiad y Cadeirydd

Cylchredwyd adroddiad y Cadeirydd i'r grŵp yn absenoldeb MP.

Cyfeiriwyd at lwybr hen reilffordd Legacy. Roedd MP wedi gwneud cais ffurfiol i'r National Grid ym mis Chwefror, yn gofyn iddynt neilltuo llwybr o fewn safle'r is-orsaf. Ni chafwyd ateb swyddogol eto ond roedd MP wedi clywed o ffynhonnell arall y byddai'r cais yn cael ei wrthod ôl pob tebyg, gan fod is-orsafoedd yn gallu bod yn dargedau terfysgwr. Dywedodd SG bod MP yn pryderu bod llawer o amser wedi cael ei dreulio ar hyn a gofynnodd i'r aelodau a fyddent eisiau i MP fynd ar ôl hyn ymhellach. Yn dilyn trafodaeth ymhlith y grŵp, cytunwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i MP ddal i fynd ar drywydd hyn gyda'r cwmni a cysylltu â'r Cyngor Cymuned hefyd.

15/10 Adroddiad yr Ysgrifennydd

- Hawliadau – Cofiwch sicrhau bod unrhyw hawliadau heb eu talu'n cael eu hanfon at yr Ysgrifennydd yn brydlon. Nid yw Adran Archwilio'r Awdurdod Lleol yn derbyn hawliadau ar ôl 3 mis.

- Erbyn hyn rhoddwyd llyfrynnau canllawiau LAF ar y we. E-bostiwyd y ddolen gyswllt at yr holl aelodau'n ddiweddar.

- Map Diffiniol – Erbyn hyn mae copi MP ar gael i edrych arno yn llyfrgell newydd Wrecsam.

- Llongyfarchiadau i Natalie Edwards ar enediaeth merch fach brydferth o'r enw Murran Olivia Edwards.

- Cynhadledd LAF ar gyfer Ysgrifenyddion a Chadeiryddion – Bydd yr achlysur hwn ar ddydd Iau 20fed Mai 2010 yn Llanfair ym Muallt. Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn mynychu ac mae un lle dros ben os bydd rhywun yn dymuno mynychu. Mynegodd GM ddiddordeb mewn mynychu.

  <u>Gweithredu</u>
  Yr Ysgrifennydd i gadw lle i GM.

16/10 Adroddiad Ceidwaid Mynediad – (Siôn Roberts)

Mae gwefan y gwirfoddolwyr bron yn barod i fynd yn fyw ar wefan y Cyngor. Dylai fod ar waith erbyn diwedd mis Mehefin. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr sydd gennym.

Mae Cyngor Cymuned y Waun wedi cytuno i gymryd rhan yng nghynllun prosiect llwybrau troed eleni. Trefnwyd cyfarfod ar 26ain Mai yn y Waun, lle bydd galwad am wirfoddolwyr i wneud arolwg o'r llwybrau.

Ar hyn o bryd mae'r Ceidwaid yn nodi ac yn gweithio ar restr o waith cynnal fydd yn cael ei wneud fel rhan o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy2010/2011. Mae angen rhoi'r rhestr i CCGC erbyn 24ain Mai.

Daeth llawer ar dro dywysedig gyntaf y flwyddyn. Roedd 17 o bobl ar y daith gerdded i weld Cronfeydd Dŵr y Mynydd ar 8fed Ebrill. Bydd y dro dywysedig nesaf ar 3ydd Mehefin o gwmpas Rhiwabon a Choed y Gardden.

17/10 Jean Rosenfeld – Cynrychiolydd Cenedlaethol y Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru

Rhoddwyd croeso cynnes i Jean Rosenfeld.

Cyflwyniad
Cyflwynodd JR ei hun a dywedodd wrth y grŵp fod 20 o Fforymau Mynediad Lleol ar hyd a lled Cymru. CCGC mewn enw sydd â gofal dros gydgysylltu'r LAF. Prif gyfrifoldebau JR yw trefnu Cynhadledd Flynyddol y LAF a chynrychioli holl LAF ar hyd a lled Cymru. Prif swyddogaeth JR yw rhannu gwaith, pryderon ac arferion da ymhlith LAF. Bydd JR yn ysgrifennu at Aelodau Etholedig ar ran holl LAF pan fo pryderon cytûn ymhlith LAF ar hyd a lled Cymru ar faterion arbennig. Dywedodd JR bod rhai LAF yn sefydlu is-bwyllgorau i edrych ar faterion penodol. Mae aelodau LAF penodol wedi dirprwyo cyfrifoldeb a gwaith ar ran y LAF llawn. Lle bydd cwestiynau'n codi mewn grwpiau is-bwyllgor, cânt eu dwyn i'r grŵp LAF lletach i'w trafod a'u cytuno. Dywedodd JR fod rhai llinynnau cyffredin ymhlith LAF ar hyd a lled Cymru.

Cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:

Glastir
Ar hyn o bryd, mae llawer o bryderon ar draws LAF ynghylch Glastir, gan fod hwn yn dal i fod yn gylch niwlog. Y gobaith yw y bydd mwy o wybodaeth ar gael yng Nghynhadledd Flynyddol LAF ar 20fed Mai 2010.

Cynghorau Cymuned
Cyfeiriwyd yn benodol at Gynghorau Cymuned, y mae rhai LAF yn ymwneud llawer â hwy. Gall Cynghorau Cymuned hyrwyddo LAF a helpu gyda materion amrywiol. Un maes o ddiddordeb arbennig yw cynnal Tir Gorfal ac a fydd Cynghorau Cymuned yn gallu mabwysiadu llwybrau a'u cynnal. Mae LAF Sir Gâr wedi ymweld â Chynghorau Cymuned yn eu hardal a gwneud cyflwyniadau ynghylch eu LAF.

Cŵn yng nghefn gwlad
Dywedodd JR tra bo LAF yn croesawu mynediad rhydd i gefn gwlad a nifer perchenogion anghyfrifol cŵn yn fach, mae goblygiadau i adael ci'n rhydd yng nghefn gwlad. Dywedodd JR fod pob math o gyngor croes i'w gilydd, ond bod cytundeb cyffredinol mai diffyg addysg yw achos y problemau.

Mae holl LAF yn pwyso ar CCGC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Gall yr ALl wneud gorchmynion rheoli cŵn a gosod cyfyngiadau, fel yr un a weithredwyd yn ddiweddar yn Sir Gâr lle nad oes hawl cael mwy na 3 chi ar dennyn ar yr un adeg. Fodd bynnag, gall problemau godi o ran cost gorfodi gorchmynion.

Dywedodd GJ bod Undebau Amaethwyr wedi edrych yn ofalus ar y mater ac wedi cymryd camau i addysgu pobl.

Dywedodd SG mai'r negeseuon allweddol o gyfarfod Cadeiryddion LAF ym mis Chwefror oedd yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth trwy addysg, pwyso am yswiriant ar gŵn gyda'r clybiau cŵn a chael microsgli gorfodol.

Ychwanegodd MH fod pwysau a phroblemau'n cynyddu hefyd gyda chŵn mewn parciau, yn enwedig pan nad yw pobl yn gwybod sut i gadw trefn ar eu cŵn. Cyfeiriwyd at y taflenni 'Cyngor i Berchenogion Cŵn' a gynhyrchwyd gan yr Adran Wardiau Amwynder yn yr Awdurdod Lleol. Cynigiodd GJ bod paragraff yn cael ei baratoi ar gyfer y 'Cysellt' cylchgrawn sy'n cael ei gylchredeg i holl gartrefi Wrecsam.

Gweithredu
MH / Cadeirydd i gysylltu â'r Adran Wardiau Amwynder i ofyn bod paragraff gyda chyngor i berchenogion cŵn yn mynd i gylchgrawn Cyswllt.

Gyrru oddi ar y ffordd - Mae gyrru oddi ar y ffordd yn faes arall sy'n peri pryder ymhlith LAF yng Nghymru.

Cyllid ROWIP – Mae LAF yn bryderus iawn ynghylch cyllid ROWIP, yn enwedig o ran sut mae Awdurdodau Lleol yn delio â thoriadau cyllid.

Gorchmynion Llidiartu – Mae JR wrthi'n gwneud ymholiadau i weld faint o orchmynion llidiartu sy'n bodoli ar hyd a lled Cymru. Teimlai LAF y dylid ymgynghori â hwy cyn gwneud gorchmynion llidiartu er mwyn penderfynu ai dyma'r dewis mwyaf priodol.

Materion trawsffiniol a chydweithio – Dywedodd JR bod cynnydd wedi bod yn araf a bod peth gwrthdaro rhwng Awdurdodau Lleol. Roedd Sir y Fflint wedi awgrymu cyfarfod ar y cyd â Wrecsam i drafod materion mwy strategol. Fodd bynnag eglurodd SG tra bo cyfarfod archwiliol wedi cael ei gynnal rhwng Wrecsam a Sir y Fflint yn gynharach yn y flwyddyn, nid yw LAF Wrecsam eisiau mynd ar ôl cyfarfod ar y cyd ar yr adeg hon. Dywedodd JR wrth yr aelodau bod Sir Ddinbych erbyn hyn wedi penodi Ysgrifennydd a hysbysebwyd swyddi LAF. Y gobaith yw y bydd Fforwm newydd yn cael ei sefydlu yn Sir Ddinbych dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Dywedodd JR bod LAF, trwy gyfnewid gwybodaeth, pryderon a sylwadau, yn gallu cynorthwyo ei gilydd i symud ymlaen.

Diolchwyd i JR am ddod i'r cyfarfod ac am roi'r diweddaraf ar faterion cenedlaethol LAF.

18/10 Richard Sumner – Swyddog Cynllunio Tirwedd

Roedd Richard Sumner yn methu mynychu'r cyfarfod y tro yma. Y gobaith yw y bydd yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i roi golwg gyffredinol dros ardaloedd o harddwch eithriadol yn Wrecsam.

19/10 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Alun Price)

Roedd Alun Price yn methu mynychu'r cyfarfod y tro yma.

20/10 Materion yn codi o'r cofnodion

4x4 yng nghefn gwlad – Roedd MC wedi gofyn bod 4x4 yng nghefn gwlad yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd GJ wrth yr aelodau y trefnwyd cyfarfod ynghylch gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd ar 17eg Mehefin 2010 yng Nghanolfan Brenig. Bydd gwybodaeth o'r cyfarfod hwnnw'n cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf WLAF, os yw ar gael.

Cyllidebu – Cyfeiriwyd at gyllid ROWIP. Dywedodd MH bod y cymorth ariannol yn dechnegol yn cael ei alw'n arian cyfalaf a nad oes modd gwario hyn ar unrhyw beth heblaw Hawliau Tramwy. Cyfeiriodd GJ at Gyllid CGHT, gan holi a oedd yr arian hwn wedi cael ei glustnodi. Dywedodd MH nad oedd yr arian wedi cael ei glustnodi.

21/10 Unrhyw Fater Arall

- ***Cynllun Datblygu Lleol*** – Roedd TS wedi gofyn bod ymgynghori ag WLAF ar y Cynllun Datblygu Lleol. Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod WLAF yn ymgyngoreion. Nodwyd bod cyfle i LAF a ROW ddylanwadu nid yn unig ar waith ar lwybrau troed presennol ond hefyd ar gynlluniau datblygu newydd.

- ***Gorchmynion Addasu*** – Diolchwyd i SH am sicrhau ymgynghori â LAF a'i hysbysu ynghylch gorchmynion addasu, ac am gyflymu'r broses. Dywedodd SG bod angen i aelodau gytuno ar sut mae LAF yn bwriadu gweithredu'r gorchmynion sy'n cael eu cylchredeg yn rheolaidd erbyn hyn. Cynigiwyd y gall aelodau unigol y fforwm ymweld â'r safle dan sylw ac ymateb o ganlyniad. Fodd bynnag, gofynnodd SG i'r aelodau sicrhau gwneud yn glir wrth ymateb eu bod yn gwneud hynny fel unigolyn ac nid ar ran y fforwm cyfan. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â'r aelod LAF priodol yn yr ardal dan sylw i drafod unrhyw faterion pan gaiff gorchmynion addasu eu cyhoeddi.

- ***Prynhawn Cŵn*** – Trefnwyd 'Prynhawn Cŵn' ar 19eg Awst 2010 yng nghanolfan ymwelwyr Dyfroedd Alun, 11am tan tua 4pm. Bydd cŵn yn cael microsglodyn am ddim ond £10 yr un, ac mae adloniant yn cynnwys arddangosiad sioncrwydd a dosbarthiadau cŵn hwyliog gyda rhosglymau i'r 7fed lle (cofrestru ar y diwrnod, £2 y dosbarth). Hefyd bydd rhai stondinau masnachol ar gyfer cŵn ac arddangsiadau / cyngor, a chyfle i ymuno â dosbarthiadau ar gyfer gwobr 'dinesydd da'. Cysylltwch â Mary Roberts os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu.

22/10 Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

- Prosiect Llwybrau Cymunedol, Broughton (Alison Whitley)
- 4x4 yng nghefn gwlad
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (Richard Sumner)

23/10 Dyddiad a Lleoliad Cyfarfod Nesaf

20fed Awst 2010, Neuadd Bentref, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, 1.30pm